CC(3) AC 50

## Communities and Culture Committee

## Inquiry into the Accessibility of Arts and Cultural Activities in Wales

Response from THEATR FELIN-FACH

Sefydlwyd Theatr Felin-fach ym 1972 gan Adran Addysg, Cyngor Sir Aberteifi. 'Roedd y cyngor eisoes yn y 1960au wedi sefydlu swydd "Trefnydd Drama" o fewn y sir. Gwaith y trefnydd oedd darparu hyfforddiant creadigol ac artistig i ddisgyblion ac athrawon yn yr ysgolion ac i oedolion a phobl ifainc yn y cymunedau a'r neuaddau pentref. Disgwylid hefyd i'r trefnydd lwyfannu dramâu o fewn y sir. Yn sgil llwyddiant y rhaglen waith a luniwyd ac a weinyddwyd gan y trefnydd a'i dîm o athrawon peripatetig, penderfynwyd sefydlu canolfan bwrpasol i ddatblygu'r gwaith creadigol hwn ymhellach.

Addaswyd hen weithdy cywiro peiriannau amaethyddol, a ddefnyddiwyd yn ystod cyfnod yr Ail Ryfel Byd, i fod yn theatr newydd ag adnoddau modern a chyfarpar technegol o'r radd flaenaf. Agorwyd y Theatr yn swyddogol ym mis Mai 1972 ac ers ei sefydlu, darparwyd rhaglen lawn o berfformiadau proffesiynol, yn ogystal â rhaglen lawn o weithgareddau a phrosiectau a ddefnyddiai drama a chyfryngau theatr fel cyfrwng addysgu yn y gymuned ac mewn ysgolion. Mae'r ethos a'r egwyddorion gwreiddiol dal yn berthnasol ac yn weithredol.

Mae Theatr Felin-fach, heddiw yn defnyddio'r celfyddydau i hyrwyddo:

- datblygiad creadigol unigolion a grwpiau
- datblygiad sgiliau a hyfedredd yn y celfyddydau
- cynhwysiad cymdeithasol
- datblygiad personol
- integreiddiad ieithyddol a diwylliannol
- cyfranogiad yn y celfyddydau
- dathliad o fynegiant diwylliannol
-

Mae rhaglen waith Theatr Felin-fach heddiw yn cynnwys:

- Rhaglenni celfyddydol cyfranogol, gan ddefnyddio drama, theatr, dawns a'r cyfryngau yn gyffredinol ar gyfer a chynyrchiadau cymunedol
- Rhaglen o gynyrchiadau teithiol proffesiynol
- Rhaglen amrywiol o weithdai drama, theatr a dawns
- Rhaglenni celf gyfranogol i blant ac ieuenctid, gan gynnwys 8 Clwb Drama a 2 Gwmni Theatr Ieuenctid
- Cyfleoedd hyfforddiant anffurfiol ym meysydd technegol theatr, stiwdio radio a darlledu
- Cyfleoedd hyfforddiant anffurfiol ym maes cynhyrchu a chyfarwyddo drama/theatr
- Rhaglenni ysgrifennu creadigol
- Prosiectau radio cymunedol
- Rhaglen Ddiwylliant Bro (newydd ers 2008)
- Rhaglen Dawns yn y Gymuned (newydd ers 2009)
- Cyngor, hyfforddiant a chefnogaeth i unigolion
- Cyngor a chefnogaeth broffesiynol i fudiadau cymunedol aThrydydd Sector

Mae Ceredigion yn un o 9 ardal yng Nghymru sy'n gyfan gwbl wledig ac mae hyn yn codi sialensiau gwirioneddol wrth ddarparu gwasanaethau yn ogystal ag wrth fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol, iechyd a lles trigolion y sir. Mae mynegai cenedlaethol di-freintedd WIMD yn dangos mai tai a mynediad at wasanaethau yw'r prif ffactorau o ddi-freintedd yng Ngheredigion. Yng nghyswllt mynediad at wasanaethau, mae Theatr Felin-fach yn gwasanaethu'r ardaloedd mwyaf gwledig o Geredigion ac felly mae'r cynlluniau a'r rhaglenni a ddatblygir gan y theatr yn adlewyrchu ac yn ymateb i gyd-destun y boblogaeth wledig a chymdogaethau cefn gwlad.

RHAI SYLWADAU

Ry'n ni wedi cael llond bol o glywed yr ystrydeb yn ddyddiol, ond **mae'n** gyfnod o ansicrwydd ymhob agwedd o fywyd ar hyn o bryd. Yn arbennig felly ym meysydd diwylliant a'r celfyddydau. Mae'r sefydliadau a'r gweithwyr o fewn sector a elwir "y celfyddydau" yn ymwybodol iawn o'r ffaith ein bod yn gweithredu'n ddiwylliannol o fewn maes nad sy'n "statudol" yn nhermau llywodraeth, ac eto yn "angenrheidiol" i hyfywedd diwylliannol, cymunedol, iechyd, economi a hunaniaeth unrhyw wlad.

Mae mynegiant creadigol y Cymry yn rhan annatod o'u gwead fel cenedl, mae'r cyfoeth a'r traddodiad o storia, barddoni, perfformio a chreu , ( i enwi ond rhai), yn rhan o fywyd y genedl ers cyn cof, ac mae'n siŵr bod gan y mynegiant creadigol yma ran i'w chwarae ym mharhad yr iaith Gymraeg yn ogystal â hunaniaeth ddiwylliannol y wlad. Yn fy marn mae gan bob math o sefydliadau ac unigolion rol i'w chwarae yn hyfywedd ddiwylliannol ein gwlad, o'r ganolfan genedlaethol orwych i'r grŵp drama llawr-gwlad, i'r artist sydd yn ei stiwdio , i'r clybiau drama lleol i blant. I'r cwmnïau perfformio cenedlaethol.

Y pryder yn genedlaethol, trwy Brydain , fel mewn nifer enfawr o wledydd eraill yn Ewrop a thu hwnt, yw cynaladwyedd y sector gelfyddydol o fewn cyfundrefnau llywodraethol ac effaith economïau bregus. Mae'n siŵr bod y mwyafrif o'r boblogaeth (poblogaeth Cymru, a thu hwnt) yn teimlo bod yn rhaid i bethau newid, mae'r "newid" tu hwnt i'n rheolaeth ni fel treth-dalwyr, ond hefyd tu hwnt i'n amgyffred ni weithiau mewn sawl maes.

Mae'r broses Adolygiad Buddsoddi Cyngor y Celfyddydau wedi bod , ac yn, broses boenus, nid yn unig i reolwyr/arweinyddion prosiectau a chanolfannau a'r gweithlu, wrth ymdopi â'r pwysau o gyflwyno tystiolaeth gyflawn ac achosion busnes. Afraid dweud iddi fod yn broses boenus i unigolion, grwpiau a chymunedau trwy Gymru sy'n cyfranogi ac yn ymwneud â'r diwylliant celfyddydol yng Nghymru, wrth iddynt ofidio am golli gwasanaethau neu ganolfan.

Wedi dweud hyn, amhosib yw dychmygu pa fath o broses na fyddai wedi bod yn boenus, roedd y canllawiau a ddarparwyd, o'm safbwynt i, a'r arweiniad yn glir wrth lunio'r cynllun busnes a'r cais dros ei gyflwyno i'r Cyngor Celfyddydau, a rhaid oedd mynd i'r afael â'r canllawiau hynny er mwyn cyflawni'r dasg. Rhan o'r boen wrth gwrs yw'r ansicrwydd a ddaw yn sgil proses o'r fath - roedd y dasg yn anferth, a rhaid oedd wrth grib fân wrth ddadansoddi'r cynlluniau busnes, mae'n siŵr. Mae synnwyr cyffredin yn dweud bod y gwaith yn cymryd misoedd, ac mae synnwyr cyffredin hefyd yn dweud ei bod hi'n amhosib i'r CCC ddatgelu unrhyw gynlluniau pendant tan eu bod yn gwybod beth yw'r penderfyniadau a'r setliad oddi wrth Y Cynulliad. Hir yw pob aros. Mae cryn rwystredigaeth wedi amlygu ei hun yn ystod y misoedd a aeth heibio, wrth fod y system apêl ddim ond yn berthnasol i "broses yr adolygiad buddsoddi" yn hytrach na'r canlyniad.

O edrych ar ganlyniadau'r arolwg yn nhermau daearyddiaeth, mae gofid dros rhai ardaloedd gwledig lle mae sefydliadau wedi colli eu statws fel cleient refeniw, ry'n ni'n clywed yn wythnosol am grwpiau/cyrff/sefydliadau sy'n gweithio'n ddygn i lunio ffyrdd amgen o ariannu gwaith, ond heb y ffyrdd newydd hynny o ariannu, mae peryg iddyn nhw orfod cau neu stopio'r gwaith yn gyfan gwbl. Mae Ceredigion yn ymddangos ar yr ail safle yn y mynegai WIMD sy'n dangos di-freintedd gwledig yn nhermau mynediad at wasanaethau. Tra bod sefydliadau Ceredigion, ar y cyfan, wedi cael ymateb cadarnhaol i'r adolygiad buddsoddi, mae cryn ofid yn amlwg mewn sir fel Powys, sy'n enfawr o ran tir, gyda rhan helaeth yn wledig sydd eisoes yn profi'n dalcen caled o safbwynt mynediad a hygyrchedd at wasanaethau. Mae'r gallu i gyrraedd gwasanaethau yn fater o ofid yng Ngheredigion (sydd dipyn yn llai na Phowys) – rhan o'n hateb ni yn yn y gorffennol yw gweithredu system fysiau mewn rhai prosiectau bobl ifainc – gyda'r cyni ariannol – rhaid edrych pa mor gynaliadwy fydd hyn i'r dyfodol – a'r peryg wedyn, wrth gwrs yw lleihau'r cyfleoedd a'r mynediad i gyfranogwyr ifanc.

Beth bynnag yw'r ddarpariaeth ddiwylliannol/gelfyddydol ar draws Cymru yn y dyfodol, rhaid sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n mynd i'r afael â darparu cyfleoedd eang i drigolion y wlad gael mynediad at gyfleoedd diwylliannol, naill ai fel cyfranogwyr neu fel cynulleidfa. Rhaid wrth ddarpariaeth llawr-gwlad sy'n cynnig mynediad at weithredu diwylliannol, creadigol. Rhaid hefyd wrth gynnyrch uchelgeisiol o safon, sy'n rhoi cyd-destun ac uchelgais i'r gwaith cyfranogol lleol. Rhaid wrth gyfleoedd cyfranogol er mwyn datblygu gweithlu ac artistiaid fydd yn bwydo'r maes cenedlaethol a phroffesiynol – yn fy marn, dylid edrych ar y ddarpariaeth nid fel continwwm, gyda'r dechrau yn gyfleoedd cyfranogi a'r diwedd yn lwyfan canolfan genedlaethol – cylch ydyw, yn hytrach. Does dim pwrpas i adeiladau neu ganolfannau ysblennydd ac adnoddau drud heb fo cyswllt uniongyrchol, go iawn â'r gymuned (leol a chenedlaethol) – rhaid wrth gyd-destun. Rhaid hefyd sicrhau ein bod yn parhau i gynhyrchu gwaith perthnasol i'n gwlad, iaith a'n diwylliant – mae'n dipyn o dric creu rhaglen, boed rhaglen berfformiadau neu gyfranogol, sy'n ddeniadol, heriol, uchelgeisiol a pherthnasol i gyd ar yr un pryd ond dyna, y teimlaf yw'r her o'n blaenau.

Mae Arolygon 2008 yn dangos tueddiadau o ran mynychiadau celfyddydol a chyfranogiad – ar y cyfan mae'r canlyniadau yn gyffredin i brofiad Theatr Felin-fach – mae ein rhaglenni cyfranogol yn denu nifer o bobl ifainc, merched yn y mwyafrif (ond nid ymhob prosiect) a nifer o siaradwyr Cymraeg. Mae'n genhadaeth gan y theatr i ddatblygu cyfleoedd creadigol i bobl o bob cefndir, gan roi mynediant i'r diwylliant a'r iaith Gymraeg, ond mewn modd integredig a chynhwysol – gan weithredu'n sensitif yn ieithyddol gyda grwpiau gwaith.

Yn gyffredinol, fy marn yw bod cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg yn cefnogi/cyfranogi/mynychu digwyddiadau diwylliannol a chelfyddydol gan fod mynegiant creadigol yn rhan o'u gwead cymdeithasol – mae'r elfen "berfformiadol" a chreadigol yn amlwg yn yr ysgol Sul, yn yr eisteddfod leol yn ogystal ag ar lwyfannau cenedlaethol/proffesiynol – nid cenedl o "drama queens!" , yn hytrach cenedl sy'n uniaethu â'r ddrama a'r theatr, storia, celfyddyd a dathlu'n hunaniaeth yn gyffredinol mewn modd greadigol.

Mae'r gwasanaethau diwylliannol hynny a gefnogir ar y cyfan gan awdurdodau lleol a sefydliadau celfyddydol, megis amgueddfeydd, archifdai, llyfrgelloedd, theatrau/canolfannau celf ac yn y blaen yn wasanaethau angenrheidiol – nid statudol efallai ymhob achos – ond angenrheidiol i roi cyd-destun a gwreiddiau a gwybodaeth – lleol, cenedlaethol a byd eang i'r trigolion sy'n byw yn eu hardaloedd. Mae'r celfyddydau yn creu cyfleoedd i groesi ffiniau – Nid brics a morter sydd o bwys

ond yn hytrach y wybodaeth, y sgiliau a’r cyfleoedd a ddaw drwy’r gwasanaethau diwylliannol hyn sy’n galluogi bobl i ymwneud â’i gilydd, sy’n galluogi bobl i gwestiynu ac i weithredu’n gadarnhaol, uchelgeisiol ac yn greadigol er lles eu hunain a’u cymdogaethau.

Dwynwen Lloyd Evans

Pennaeth, Theatr Felin-fach

Dyffryn Aeron, Ceredigion